Teitl: **Title:**	Polisi Mireinio Addysg Uwch	
Fersiwn: **Version**	3	
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Students	

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	*Polisi Mireinio Addysg Uwch – Cam 1 AEG*
Effaith ar yr Iaith Gymraeg *Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.*	*Welsh Language Impact* An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: **Document Owner:**	*Rheolwr Cydymffurfiaeth AU*		
Ymgynghoriad / Consultation:	*Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad* *Arweinwyr Rhaglenni AU*		
Dyddiad cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group		*Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad 24/04/22*
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:		*08/06/22*
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	*n/a*
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	*n/a*
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	*n/a*
	Corff Llywodraethu / Governing Body:		*n/a*
Dyddiad Adolygu: **Review Date:**	27/04/26		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Tabl Cynnwys

Enw'r Strategaeth / Polisi

1. Diben	2
2. Cwmpas	2
3. Dogfennau Cysylltiedig	2
4. Egwyddorion	3

Polisi

1. Diben

1.1. Mae'r Polisi Mireinio Addysg Uwch (AU) hwn yn nodi dull strategol Coleg Cambria i wella ansawdd profiad a chyfleoedd dysgu ei fyfyrwyr sydd ar raglenni AU. Wrth wneud hynny, mae'n cefnogi nod strategol y coleg o "gael darpariaeth cwricwlwm AU cadarn a sylweddol, a bod yn ddarparwr o ddewis ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag AU yn y rhanbarth".

2. Cwmpas

2.1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr a'r staff sy'n darparu rhaglenni Addysgu Uwch a/neu sy'n cynorthwyo gyda hwy. Y Grŵp Llywio AU sy'n goruchwylio'r polisi hwn. Bydd y Grŵp Llywio AU yn adolygu'r polisi a'i brosesau bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'w pwrpas.

3. Dogfennau Cysylltiedig

3.1. Mae'r dogfennau canlynol yn sail i'r polisi hwn:

3.1.1. Mae'r **Polisi a'r Prosesau Addysgu, Dysgu, Cynnydd ac Asesu** yn nodi dull y coleg i wella arferion addysgu a dysgu trwy ddatblygiad proffesiynol.

3.1.2. Y **Cylch Ansawdd a Mireinio AU** sy'n disgrifio prosesau adolygu parhaus a chynllunio gwelliannau, yn ogystal â'r rhan sydd gan fyfyrwyr yn y broses fireinio. 3.1.3. Yn y ddwy ddogfen uchod, mae Coleg Cambria yn diffinio ei brosesau adolygu a mireinio ei ddarpariaeth cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu yn systematig. Mae'r prosesau hyn yn dangos sut y cymerir camau bwriadol ar lefel y coleg i sicrhau bod ein cyfleoedd dysgu yn cael eu gwella'n barhaus ar gyfer ein myfyrwyr presennol a'n darpar fyfyrwyr.

4. Egwyddorion

4.1. Mae'r polisi hwn wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

4.1.1. Caiff prosesau mireinio eu llunio a'u monitro strategol a'u gweithredu'n systematig ym mhob maes darpariaeth AU.

4.1.2. Y dylai pawb sydd ynghlwm ag addysgu a/neu gynorthwyo gyda dysgu gymryd rhan mewn gwella ansawdd a'i sicrhau.

4.2. ● Bod y gweithdrefnau gwerthuso yn gynhwysfawr ac yn seiliedig ar wybodaeth berthnasol a chadarn.

4.3. ● Bod y myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn rhan ystyrlon o bob agwedd ar y broses wella.

4.4. **Trosolwg o'r Broses Mireinio**

4.5. Amlinellir y prosesau manwl ar gyfer mireinio yn y *Cylch Ansawdd a Mireinio AU.* Mae rhagor o fanylion am sut i wella arferion addysgu yn y *Strategaeth Addysgu a Dysgu* a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2016 (i'w ddisodli gan y *Polisi Addysgu a Datblygu ac Arferion Proffesiyno*l ym mis Ebrill 2018).